Elizabeth Fry 1780–1845

Diwygiwr cymdeithasol

Mae llawer o ddiwygiadau cymdeithasol wedi digwydd nid oherwydd gwaith llywodraeth ond oherwydd gweledigaeth unigolion. Mae cyflwr carchardai yn enghraifft dda o hyn. Ychydig iawn o ystyriaeth a roddwyd i garcharorion hyd y ddeunawfed ganrif. Ym 1701 ceisiodd yr SPCK dynnu sylw at ffaeleddau mawr y system ond heb fawr o lwyddiant. Ceisiodd John Howard, Uwch Siryf Bedford, newid pethau trwy ei adroddiad ar gyflwr carchardai ym 1777, ond eto heb fawr lwyddiant. Un a wnaeth wahaniaeth mawr oedd Elizabeth Fry.

Ganwyd Elizabeth Gurney ar 21 Mai 1780 yn un o ddeuddeg o blant i deulu cefnog o Grynwyr. Roedd ei thad yn fancwr a deuai ei mam o deulu enwog o fancwyr, y Barclays. Addolent fel teulu o Sul i Sul yn Nhŷ Cwrdd y Crynwyr yn Goat Lane, Norwich.

Roedd eu cartref, Earlham Hall ar lan afon Wensum, yn un o ganolfannau cymdeithasol Norwich. Roedd Elizabeth yn mwynhau gwisgo'n lliwgar ac yn mynychu partïon a chredai fod yr oedfaon hir ar y Sul yn hynod ddiflas.

Pan oedd yn ddwy ar bymtheg oed ysgrifennodd yn ei dyddiadur nad oedd yn credu yn Nuw, ond o fewn blwyddyn newidiwyd ei bywyd pan aeth i wrando ar bregethwr Americanaidd o'r enw William Savery. Daeth i brofiad ac ychydig fisoedd yn ddiweddarach mewn oedfa gan y Crynwyr cafwyd proffwydoliaeth y byddai yn 'oleuni i'r deillion, llais i'r mud a thraed i'r cloffion'.

Ceisiodd ffyrdd i wasanaethu Duw yn ymarferol. Cychwynnodd Ysgol Sul yn Earlham Hall i blant tlawd, ymwelodd â chleifion yn Norwich er mwyn darllen o'r Beibl iddynt a gwnaeth ddillad i'r tlodion. Yn y cyfnod hwn mabwysiadodd wisg fwy syber y Crynwyr. Pan oedd yn 20 oed priododd Joseph Fry, masnachwr te, coffi a sbeisys yn Llundain. Am flynyddoedd bu'n wraig a mam ymroddedig. Ym 1808 symudodd y teulu o'r ddinas i Plashet House, East Ham. Yno dechreuodd weithredu eto

dros yr anghenus trwy ddarparu bwyd, ymweld â chleifion ac agor ysgol. Ym 1811 fe'i cofrestrwyd fel gweinidog gyda'r Crynwyr yn Barking a bu'n siarad mewn llawer man.

Tynnwyd ei sylw am y tro cyntaf at gyflwr carchardai ym 1813 a hynny gan Grynwr o America sef Stephen Grellet. Roedd ef wedi ymweld â charchar Newgate, Llundain, a dywedodd wrthi am yr amgylchiadau difrifol oedd yno. Ymatebodd Elizabeth Fry yn syth bin ac aeth yno gyda chriw o ferched i roi dillad i'r cleifion a'r plant. Talodd i'r ceidwad am roi gwellt glân iddynt yn gyson. Roedd adain y merched yng ngharchar Newgate yn dal 300 o ferched a phlant. Gwasgwyd hwy i bedair ystafell lle y disgwylid iddynt gysgu, coginio a bwyta. Yn ystod y dydd caniatawyd iddynt gymysgu gyda'r dynion ac yr oedd gamblo, yfed ac ymladd yn rhemp.

Ni lwyddodd i ddychwelyd yno tan Ionawr 1817 pan gafodd hawl i ymweld yn gyson â charchardai. Cychwynnodd ysgol i'r plant a dosbarthiadau gwau a gwnïo. Rhannwyd y carcharorion yn griwiau o ddeuddeg gydag un monitor yn eu goruchwylio ac roedd hyn yn raddol yn meithrin ymdeimlad o werth ymhlith y merched. Gyda'u henillion gallent brynu moethau fel te a siwgr yn siop y carchar. Ffurfiwyd pwyllgor o Grynwragedd i godi arian at yr ysgol ac i drefnu bod un ohonynt yn ymweld yn ddyddiol. I Elizabeth Fry y peth pwysicaf a sefydlodd oedd yr arfer o ddarllen y Beibl ddwywaith y dydd. Er nad oedd gan yr holl garcharorion ddiddordeb bu'r gwaith yn llwyddiant. Sefydlwyd pwyllgorau gan wragedd ar hyd a lled Lloegr i helpu mewn carchardai. Yn ddiweddarach ysgrifennodd ei phrofiadau mewn llyfr sef *Observations on the Visiting, Superintendence and Government of Female Prisoners.*

Cafodd wahoddiad i siarad ym 1818 yn San Steffan a Thŷ'r Arglwyddi. Dechreuodd hefyd ymyrryd â'r arfer o gludo drwgweithredwyr i Awstralia. Mewn cyfnod o bum mlynedd ar hugain ymwelodd â phob llong cludo troseddwyr a adawodd Lundain oedd yn cario merched sef 106 o longau yn cario 12,000 o garcharorion. Sefydlodd hefyd loches i'r digartref a chartref hyfforddi nyrsys. Bu farw ar 13 Hydref 1845 yn Ramsgate ac fe'i claddwyd ym mynwent y Crynwyr, Barking.